

Tua'r flwyddyn 1840 daeth dau fonheddwr i blasdy Glynllifon, ac yn ystod eu hymweliad aethant yng nghwmni'r Parchedig Robert Hughes, Uwchlaw'r ffynnon i weld Tre'r Ceiri a Nant Gwrtheyrn. O wrando ar eu hymgom daeth yn amlwg i Robert Hughes mai daeareg oedd eu prif ddiddordeb, a buan y sylweddolodd mai 'amheuwyr' oeddynt. Golygai hyn eu bod yn amau'r gosodiad, a adwaenid fel y syniadaeth Fosaig, yn llyfr Genesis o'r Beibl, bod Duw wedi creu'r byd a'r cyfan sydd ynddo mewn chwe diwrnod.

Fel diwinydd uniongred, darllengar a oedd wedi trwytho ei hun er dod yn gyfarwydd â dadleuon daearegwyr y cyfnod ynglŷn â'r syniadaeth Fosaig, achosodd sylwedd trafodaeth yr ymwelwyr gryn boendod meddwl i Robert Hughes. Datblygodd y drafodaeth yn ddadl boeth rhyngddynt, ac fe gafodd Robin Hughes y llaw uchaf ar un ohonynt, ond daliodd y llall ati fel y cerddent drwy Nant Gwrtheyrn. Synwyd y boneddwr gan wybodaeth eang y gwerinwr cyffredin o'r pwnc dan sylw, ac meddai:

'Tarawyd y boneddigion â syndod gan y ffaith fod Cymro mynyddig yn gwybod hyd yn oed y gair *Geology*. Disgwylent gael y cyfryw un mor anwybodus â'r bychod geifr sydd yn y creigiau' (Hughes, 1893).

Cyn gwahanu ar ddiwedd y dydd, cynigiwyd lle i Robert Hughes am bedair blynedd ym Mhrifysgol Llundain ar draul y ddau ymwelydd, ond gwrthododd Robert Hughes y cynnig gan fod gwraig a theulu ifanc yn ddibynol arno am gynhaliath, heb sôn am ei ofal o'i fferm a'r da byw.

O'r llyfrau a ddarllenwyd gan Robert Hughes mae'n enwi un o'r teitl *Daeareg a'r Beibl* gan 'P. Smith'. Mae'n debyg mai llyfr yr Annibynnwr John Pye Smith *On the Relation between the Holy Scriptures and Some Parts of Geological Science* (1839) yw hwn. Hefyd, cawn ei fod yn gyfarwydd â *Principles of Geology* (1828) Charles Lyell.

Mwy diddorol fyth, efallai, yw'r ffaith bod Robert Hughes yn cyfaddef nad oedd y pwnc yma wedi dod i sylw ond yn lled ddiweddar, yn enwedig yng Nghymru. Mae hyn yn dadlennu ffaith bwysig, sef bod y cwestiwn a ddaeth yn bwnc trafod poblogaidd yn ystod ail chwarter y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cael sylw nid bychan gan werinwr o Gymro.

Ceir tystiolaeth ym mhregethau Robert Hughes ei fod yn gyfarwydd â dull y daearegwr o weithio, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth i

Cyrol yr 'amheuwyr': Y VESTIGES

gan Dewi Jones, Dyffryn Nantlle



Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon.

ddarlunio ei destun, fel y gwnaeth yn y bedwaredd bregeth (Ioan, 30-40) a gyhoeddwyd yn ei hunangofiant: 'Chwiliwch yr ysgrythurau; canys ynddynt hwy yr ydych chiwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol':


'Fel y daearegwr yn chwilio'r creigiau. Dacw fe yn myned o glogwyn i glogwyn, a'i gwddyn lledr yn ei law, a chyda'i forthwyl yn tori darn o'r graig i'w chludo gydag ef i'w harchwilio yn fanwl. Tybia rhai wrth ei weled fod rhyw amhariaeth ar ei synhwyrau; ond Proffeswr galluog o Rydychen ydyw, yn astudio daeareg...'

Yn ystod y cyfnod y bu Robert Hughes yn teithio de Cymru gyda'r Parchedig John Jones, Talysarn, dychwelodd un o'r bonheddwyr i'r ardal i chwilio amdano a gadawodd nifer o lyfrau yn anrheg iddo, sef, *Consolations in Travel, or the last days of a Philosopher* (1830) gan Humphrey Davy, a *Sketches of the History of Man* gan Henry Home (Lord Kames: 1766-1782) a welodd sawl cyhoeddiad rhwng 1774 ac 1813.

Mae'r cyffro a ysgubodd drwy Brydain yn ystod y cyfnod hwn yn tarddu o ddamcaniaeth wyddonol y Ffrancwr Lamarck drwy ei lyfr *Philosophie Zoologique* (1809), ond yn ôl y sôn ni wnaeth y cyhoeddiad fawr o argraff yma ar y pryd. Prif bwyntiau dadl Lamarck oedd bod swyddogaeth organau cyrff yn addasu i ateb newidiadau yn yr amgylchfyd; bod organau yn graddol newid i gyfateb â'r defnydd neu'r prinder defnydd ohonynt: bod yr addasiadau hyn yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i

genhedlaeth drwy etifeddiad.

Y gyfrol a fu'n gyfrwng i boblogeiddio damcaniaeth Lamarck ym Mhrydain oedd *Vestiges of the Natural History of Creation*, epig ar esblygiad a oedd yn trafod ffurfiad Cyfundrefn yr Haul hyd at dynged yr hil ddynol mewn arddull a oedd mor ddarllenadwy â nofel ramant. Drwy gyfuno Seryddiaeth, Daeareg, Ffisioleg, Seicoleg, Anthropoleg a Diwinyddiaeth, awgrymwyd bod y planedau wedi tarddu o Niwl-dân wenfflam, bod bywyd yn gallu cael ei greu mewn labordy, a bod dyn wedi esblygu o Epa. Er mai gwan oedd y *Vestiges* mewn tystiolaeth wyddonol, nid yw'r ddamcaniaeth ryw lawer yn wahanol i *Origin of Species* Charles Darwin a gyhoeddwyd yn 1859, bymtheng mlynedd yn ddiweddarach.



Tudalen deitl argraffiad 1887 o'r 'Vestiges'

Cyhoeddwyd y *Vestiges* yn ddiennw yn 1844 a bu'r gyfrol mor boblogaidd nes cyrraedd pedwar-ar-dddeg argraffiad, ac erbyn 1890 roedd 38,750 o gopïau wedi eu hargraffu. Yr awdur oedd yr Albanwr Robert Chambers (1802-71) argraffydd a llyfrwerthwr, hunan-addysgedig mewn esblygiad, daeareg, a gwyddorau perthynol, a chanddo nam corfforol a etifeddiad gan rai o'i blant, sef chwe bys ar bob llaw a throed. Oherwydd ei ddiddordeb mewn etifeddiad roedd gan Charles Darwin ddiddordeb yn hyn ac anfonodd un o'r genethod amlinelliaid o'i llaw iddo.

Ni welwyd tystiolaeth bendant sy'n cadarnhau bod Robert Hughes Uwchlaw'rffynnon yn gyfarwydd â'r *Vestiges*, nac yn wir dystiolaeth bod cynnwys y llyfr wedi creu'r un cyffro yng Nghymru ag a wnaeth yn Lloegr. Derbyniad gwahanol a gafodd un arall o weithiau Robert Chambers, sef, *Information for the people*; cyfieithwyd rhan o'r gyfrol gyntaf i'r Gymraeg gan Eben Fardd - cyfaill agos i Robert Hughes.

Yn 1845 traddodwyd darlith 'On the theories propounded in the *Vestiges of Creation*' i Gymdeithas Lenyddol a Gwyddonol Abertawe gan y Dr Thomas Williams (1818-65), fffisigwr a gwyddonydd blaenllaw. Yn ystod Rhagfyr o'r un flwyddyn ysgrifennodd Alfred Russel Wallace at ei gyfaill H. W. Bates (1825-92, y naturiaethwr enwog a fu gydag ef yn yr Amazon) i holi a oedd wedi darllen y *Vestiges*. Roedd Wallace yn un o ychydig naturiaethwyr y cyfnod a groesawodd y gyfrol; gwnaeth argraff ddofn arno a phlannwyd yr hadyn a oedd i ddatblygu ymhen amser yn ddamcaniaeth wreiddiol ganddo ar esblygiad y ddynoliaeth. Damcaniaeth a oedd ar yr un donfedd ag un Charles Darwin - ac yr oedd Darwin yntau wedi darllen y *Vestiges*!

Bu'r *Vestiges* yn gryn boen meddwl i'r cyfreithiwr Samuel Richard Bosanquet (1800-82) o Landdingad, Mynwy, a chyhoeddodd ei bryder mewn pamffledyn *Vestiges of the Natural History of Creation: Its Argument Examined and Exposed* yn 1845 (Secord, 2000). Roedd Bosanquet yn Efengylwr cadarn a gwelai'r *Vestiges* yn ei rwywiad coch fel putain hudolus, neu'r sarff yn Eden, a rhybuddiodd ei fod yn arwydd bod y byd ar fin distryw.

Yn ôl y diweddar Barchedig R. Tudur Jones (Hanes Annibynnwr Cymru) ni wnaeth *Origin of Species* Charles